**Sesiwn 2000 - 2001 Rhif 53**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MAWRTH, 27 CHWEFROR 2001

## RHAN 1 - ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru** (30 munud)
Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

**Cymeradwyo Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001**
*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor y Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2001.

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion o dan Reol Sefydlog 11.5 sy’n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2001;

(b) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2001.

**Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Thai (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) 2001**
*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2001.

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi o dan Reol Sefydlog 11.5 unrhyw

faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Chwefror 2001;

(b) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2001 a'r memorandwm cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.13 (i) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2001.

**Cynnig cyfansawdd:**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

Yn cymeradwyo:

- **Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad)**

**(Diwygio) (Cymru) 2001** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr

2001, ac:

- Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) (Diwygio) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2001.

Yn cymeradwyo:

- **Rheoliadau Taliadau Sn Priffyrdd (Cartrefi Symudol) (Cymru) 2001** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2001, ac:
- Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw

faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Taliadau

Sn Priffyrdd (Cartrefi Symudol) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa

Gyflwyno ar 6 Chwefror 2001.

**Dadl ar y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol.**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

a. yn croesawu ac yn cymeradwyo'r egwyddorion, yr amcanion a'r

targedau cyffredinol a amlinellwyd yn y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol ar

gyfer Cymru a ddosbarthwyd i'r Aelodau trwy'r e-bost ac a osodwyd yn

y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2001;

b. yn cydnabod bod lefelau llythrennedd a rhifedd isel yn effeithio ar

ansawdd bywyd llawer o bobl yng Nghymru;

c. yn cydnabod cyfraniad hanfodol addysgwyr, cyflogwyr, llywodraeth

leol, y sector gwirfoddol ac amrediad eang o bartneriaid eraill sy'n

angenrheidiol er mwyn cyflawni nodau'r Strategaeth;

d. yn cymeradwyo ymagwedd Gymreig y Strategaeth;

e. yn cytuno bod y Weithrediaeth yn cymryd y camau sy'n angenrheidiol

er mwyn rhoi'r Strategaeth ar waith erbyn Ebrill 2004.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:

(1)

(2+3+4)

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu pwynt b. newydd ac aildrefnu'r pwyntiau dilynol:

b. yn rhoi pwyslais ar bobl sydd wedi ymadael ag addysg amser llawn heb feithrin sgiliau sylfaenol, ac yn cefnogi mesurau i liniaru ar broblem anllythrennedd ac anrhifedd ymysg oedolion.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Mewnosod ar ddiwedd pwynt bwled b:

ac yn cydnabod bod rhaid cynnal strategaethau addysg a hyfforddiant

â mesurau effeithiol ehangach i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol

os dymunir gweld yr effaith fwyaf yn deillio ohonynt.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Mewnosod pwynt bwled newydd ar ôl pwynt b ac aildrefnu yn unol â hynny:

> yn cefnogi argymhellion Pwyllgor Materion Cymreig T'r Cyffredin ar Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru fel modd i wella lefelau sgiliau sylfaenol.

**Gwelliant 4 -Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

**Mewnosod pwynt bwled newydd ar ôl pwynt b ac aildrefnu yn unol â hynny:**

> Nodi bod yr anghydraddoldebau a yrrir gan y farchnad ym maes addysg
>
> statudol yn debygol o ddwysáu problemau lefelau isel o sgiliau sylfaenol
>
> yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

**Cymeradwyo'r Adroddiad Grant Arbennig Diogelwch Ffyrdd**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, o dan adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 3) (Cymru) 2001 - Cynllun Grant Diogelwch Ffyrdd Lleol 2001-2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Chwefror 2001.

**Cymeradwyo'r Adroddiad Grant Arbennig Cynlluniau Trafnidiaeth Leol**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, o dan adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Cymru) 2001 - Cynllun Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol 2001-2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Chwefror 2001.

**Dadl ar y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

> Yn nodi 'Cynllun Gweithredu Drafft y Cynllun Datblygu Cynaliadwy' a
>
> ddosbarthwyd i Aelodau'r Cynulliad trwy'r e-bost ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2001.
>
> Yn cytuno y bydd y broses o roi'r cynllun datblygu cynaliadwy ar waith yn cael ei mesur yn erbyn y cynllun gweithredu drafft.
>
> Yn mabwysiadu'r dangosyddion datblygu cynaliadwy a nodwyd (atodiad E).

Yn gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad a chymryd camau eraill i ddatblygu'r cynllun gweithredu ymhellach, nodi

dangosyddion datblygu cynaliadwy ychwanegol ac ystyried opsiynau ar gyfer

cynnwys datblygu cynaliadwy yn holl strwythurau'r Cynulliad a'i hybu o fewn y strwythurau hynny.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:

(1+2+3+4+5+6)
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ar ôl pwynt bwled 1 mewnosod yn bwynt bwled newydd ac ailrifo'r pwyntiau bwled sy'n weddill yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â Datblygu Cynaliadwy

fel cyfle cadarnhaol ar gyfer datblygu economaidd a chymdeithasol yn

ogystal â datblygu amgylcheddol.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ar ôl pwynt bwled 1 mewnosod yn bwynt bwled newydd ac ailrifo'r pwyntiau bwled sy'n weddill yn unol â hynny:

Yn cydnabod yr angen i bob corff cyhoeddus gan gynnwys Cyngor Cefn

Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac Awdurdod Datblygu Cymru

roi Datblygu Cynaliadwy ar frig eu blaenoriaethau.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ym mhwynt bwled 4 mewnosod ar ôl 'Aelodau'r Cynulliad' –

"a'r Pwyllgorau".

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Dileu'r atalnod llawn ac ychwanegu ar ddiwedd pwynt bwled 4 –

"a chyflwyno unrhyw argymhellion i Gyfarfod Llawn o fewn 3 mis".

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu yn bwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn croesawu’r camau ymlaen a gymerwyd eisoes yng Nghynllun Gweithredu Drafft y Cynllun Datblygu Cynaliadwy ac yn y dangosyddion.’

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu yn bwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

**‘Yn galw ar Brif Weinidog Cymru i fynd i Uwchgynhadledd y Ddaear ar Ddatblygu Cynaliadwy fel aelod o ddirprwyaeth y DU.’**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 1 Mawrth 2001**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**